# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 207(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl – Cyfnod 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

(30 munud)

**NDM8576** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

**Dogfennau ategol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3

Datganiad gan y Llywydd yn unol ag Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

## 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd

(60 munud)

**NDM8569** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd', a osodwyd ddydd Llun 15 Ionawr 2024.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2024.

## 7 Dadl ar ddeiseb P-06-1392: Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

(60 munud)

**NDM8567** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021' a gasglodd 15,160 o lofnodion.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Adfer tomenni glo a phyllau glo brig

(60 munud)

**NDM8570** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd hon:

1. Yn nodi:

a) bod Cymru'n gartref i 40 y cant o'r holl domenni glo sy'n weddill yn y DU, a hynny o ganlyniad i ymelwa ar adnoddau naturiol Cymru;

b) bod gan fwy o law a thywydd eithafol y potensial i ansefydlogi'r tomenni hyn ymhellach; ac

c) y pryder a achosir i breswylwyr sy'n byw ger tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o adfer ac ail-bwrpasu tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill yn y tymor hir.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar frys i sefydlu corff newydd i ddarparu rhaglen adfer addas i'r diben ar gyfer tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu ar frys yr arian ychwanegol angenrheidiol ar gyfer y gyfundrefn archwilio a chynnal a chadw, yn ogystal ag ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol hirdymor am ddiogelu tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill drwy waith adfer priodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Yn is-bwynt 1 (a), dileu 'ymelwa ar adnoddau naturiol Cymru' a rhoi 'dreftadaeth ddiwydiannol Cymru' yn ei le.

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 2, dileu 'yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu' a rhoi 'yn credu y dylai Llywodraeth y DU barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu' yn ei le.

**Gwelliant 3** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £44 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn cynnal a gwella diogelwch tomenni glo ers 2022, wedi cyflwyno system o fonitro'n rheolaidd domenni categori C a D a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth newydd fodern ar gyfer tomenni nas defnyddir yn yr Hydref.

**Gwelliant 4** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 4.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8568** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Hedfan fry: ailgyflwyno eryrod cynffonwen yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mai 2024